

Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/98680/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Gramich, Katie Yvonne ORCID: <https://orcid.org/0000-0003-1939-7231> 2017.
Llunio merched: cerddi ecffrastig gan feirdd benywaidd cyfoes. Y Traethodydd 2017 (Jan) , pp. 23-32. file

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies.

See

<http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



'Llunio merched: cerddi ecffrastig gan feirdd benywaidd cyfoes'

Ysgrifennaf fel beirniad ffeminyddol o'r ail don ac o'r herwydd efallai maddeuwch imi am ddechrau'r ysgrif hwn ar nodyn hunangofiannol. Yn 1992 cyhoeddais lith o'r enw 'Bards without Beards' ar gyfer rhifyn arbennig cylchgrawn Prifysgol Bradford o dan y teitl *Women's Voice in Literature and Society*.¹ Hwn oedd un o'm cyhoeddiadau cyntaf ac ar y pryd, roeddwn yn falch i fedru cyfrannu at hybu gwaith beirdd benywaidd Cymraeg cyfoes, megis Menna Elfyn, i faes Astudiaethau Menywod yn Lloegr. Yn yr ysgrif rwy'n sôn am y traddodiad eisteddfodol yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, am ffigurau megis Ceiriog a oedd yn ymgorffori'r ddelwedd 'gywir' o'r bardd Cymreig – ac roedd y ddelwedd honno yn un o fardd barfog mawreddog, gwrywaidd. Ar y pryd roeddwn wedi darllen ac wedi cytuno yn llwyr â dadl Sandra Gilbert a Susan Gubar yn eu gwaith arloesol *The Madwoman in the Attic* (1979); roedd Gilbert a Gubar wedi gofyn yn bryfoclyd 'Is the pen a metaphorical penis?' ac wedi dangos sut yr oedd cenedlaethau o awduron a beirniaid gwrywaidd wedi ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn yna. Ond mae Gilbert a Gubar yn mynd ymlaen i ddangos yn ei llyfr ysgolheigaidd swmpus bod merched *wedi* sgrifennu, *wedi* cynhyrchu gwaith gwreiddiol a syfrdanol, ac *wedi* herio'r drefn batriarchaidd.²

Yn 1992 cefais ysbrydoliaeth gan Gilbert a Gubar i ofyn cwestiynau tebyg am lenyddiaeth Cymru. Dim ond rhai blynyddoedd yn ddiweddarach wnes i ddarganfod bod Kathryn Curtis, Marged Haycock, Ceridwen Lloyd-Morgan, ac Elin ap Hywel wedi gofyn yr un cwestiynau yn nhudalennau'r *Traethodydd*, chwe blynedd ynghynt!³ Ta waeth am hynny, yn y nawdegau cynnar ddechreuais i feddwl bod barf y bardd Eisteddfodol yn gweithredu fel rhyw fath o arwydd metonomaidd, parchus o'r ffalws cudd a oedd yn breintio'r bardd ag

¹ Gramich, Katie, 'Bards without beards', *Women's Voice in Literature and Society*, Bradford Occasional Papers, cyfrol 11, (1992) tt. 31-40.

² Gilbert, Sandra a Susan Gubar, *The Madwoman in the Attic: The Woman Writer and the Nineteenth-Century Literary Imagination* (New Haven: Yale University Press, 1979)

³ *Y Traethodydd*, Cyfrol CLXI (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calфинаidd, 1986)

awdurdod a grymuster creadigol. Roedd hi hefyd yn amlwg i mi fod cerddi megis ‘Myfanwy Fychan’ (1858) gan Ceiriog yn delfrydu’r ferch ac ar yr un pryd yn ei difeddiannu o rym ac yn ei chadw yn ei lle priodol. Yn fy marn i, rhwng canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a chanol yr ugeinfed ganrif, doedd ddim llawer wedi newid ynglŷn â safle’r ferch yn y gyfundrefn farddonol yng Nghymru. Roedd ei bodolaeth druenus, ddi-farf yn ei chadw allan o gylch hud y traddodiad barddol. Fel mae Kathryn Curtis yn nodi yn rhifyn arbennig *Y Traethodydd* yn 1986, dim ond un bardd benywaidd a gynhwyswyd yn *The Oxford Book of Welsh Verse/Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg* yn 1962, o dan olygyddiaeth Thomas Parry, sef Ann Griffiths. Hyd yn oed yn 1987 pan ymddangosodd *Blodeugerdd Barddas o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* o dan olygyddiaeth Alan Llwyd a Gwynn ap Gwilym, prin iawn oedd y lle a roddwyd i feirdd benywaidd, ac roedd y gyfrol yn hepgor gwaith Menna Elfyn, bardd mwyaf blaenllaw’r wythdegau a’r nawdegau, yn gyfan gwbl.

Roedd *Blodeugerdd* Llwyd ac ap Gwilym fel petai’n esgus bod ail don ffeminyddiaeth heb ddigwydd, er gwaetha’r ffaith bod blodeugerddi hollol newydd o waith merched fel *Hel Dail Gwyrdd* o dan olygyddiaeth Menna Elfyn wedi dechrau ymddangos.⁴ Neu efallai y gellid ystyried *Blodeugerdd* Llwyd ac ap Gwilym fel adlach hunanymwybodol yn *erbyn* her y beirdd heb farfau, a oedd wedi bod mor hy ac i dynnu sylw at eu bodolaeth. Wrth edrych yn ôl yn 2006 ar y sefyllfa a oedd yn bodoli pan ddechreuodd hi farddoni, mae Menna Elfyn wedi sôn am farddoniaeth Cymraeg fel rhyw glwb neilltuedig gwrywaidd, yn debyg i’r Seiri Rhyddion, â rhywbeth anhyblyg a defodol yn perthyn iddi. Gwyddai na allai hi fentro i mewn i’w plasty hwy, a theimlodd fel dieithryn yn ei hiaith ei hun.⁵ Yn y fath sefyllfa, penderfynodd Menna aros tu allan i’r plasty ac adeiladu annedd amgen.

⁴ Menna Elfyn, gol. *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gomer, 1985).

⁵ Menna Elfyn, Cyfweiliad yn *Poetry Wales* (Haf, 2006).

Ar ddiwedd yr wythdegau, ar ôl cyfnod yng Ngogledd America, mi ddychwelais innau i Gymru, ac roeddwn yn disgwyl y byddai popeth wedi aros yr un peth yn y traddodiad barddol Cymraeg: y plasty, y defodau, y gymdeithas gyfrin. Ond roedd pethau wedi newid. Roedd to newydd o fenywod yn sgrifennu barddoniaeth, ac yn herio'r drefn yng Nghymru. Wrth edrych ar gynnwys y blodeugerddi newydd hyn yn fy ysgrif 'Bards without Beards' yn 1992, rwy'n sôn am y ffaith bod llawer o'r cerddi yn ymwneud â gwleidyddiaeth gyfoes – Rhyfel y Culfor, Chernobyl, y lladdfa yn sgwâr Tiananmen, y protestiadau ar gomin Greenham, er enghraifft, gan osod Cymru a'r Gymraes yng nghanol y byd rhyngwladol. Roedd llawer o'r cerddi hefyd yn ateb nôl i'r traddodiad barddol gwrywaidd. Yn ogystal, roedd beirdd fel Menna Elfyn yn dod â phynciau newydd i farddoniaeth Gymraeg – yn sôn am y misglwyf, er enghraifft, ac yn cysylltu'r tabw yn erbyn sôn am bynciau felly â grym y gymdeithas batriarchaidd. Yn nhermau arddull, roedd menywod yr wythdegau yn osgoi mynegiant astrus, efallai oherwydd eu bod yn awyddus i siarad â chynulleidfa eang – roedd ganddynt rywbeth pwysig i'w ddweud ac roedd yn hen bryd i bobl Cymru eu clywed.

Sut felly ydy'r traddodiad benywaidd newydd hwn wedi datblygu ers hynny, dros yr ugain mlynedd diwethaf? Un peth sy'n sicr: mae 'na lawer rhagor o feirdd benywaidd heddiw ac maent wedi ennill tir yn syfrdanol yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'n ffaith ysgytwol bod rhagor o ferched wedi ennill y Goron neu'r Gadair yn yr Eisteddfod yn y pymtheg mlynedd diwethaf nag yn y *ganrif* flaenorol. Er hynny, gellir dadlau bod rheolau astrus y gynghanedd yn dal i gadw llawer o ferched allan: dim ond dwy ferch sydd wedi cipio'r gadair hyd heddiw: Mererid Hopwood a Hilma Llwyd Edwards. Ond mae Mererid Hopwood ei hunan ynghyd â sawl fardd benywaidd cyfoes arall, fel Karen Owen, yn gweithio'n galed i agor y drysau i'r gynghanedd ag i geisio creu pont i ragor o fenywod i ddod i mewn i'r plasty arbennig hwnnw.

Un nodwedd drawiadol am gerddi cyfoes gan ferched nad oedd yn gyffredin iawn yng ngwaith merched yr wythdegau yw bod nifer ohonynt yn gerddi ecffrastig, hynny yw, cerddi wedi eu hysbrydoli gan weithiau celf, neu sy'n creu rhyw fath o ddeialog gyda llun neu ffotograff. Enillodd Christine James y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2005 â'i cherddi ecffrastig gwych o dan y teitl 'llynellau lliw', er enghraifft, ac yn 2006 enillodd Karen Owen gwobr Llyfr y Flwyddyn â'i chyfrol *Siarad trwy'i het*, sy'n cyfuno cerddi a ffotograffau.

Mae'r berthynas rhwng barddoniaeth a chelf weledol yn un hynafol iawn. Cyfeiria'r bardd Lladin, Horas, ati yn ei waith dylanwadol, yr *Ars Poetica* (19CC), lle dywed 'ut pictura poesis', hynny yw, 'megis mewn llun, felly mewn barddoniaeth'. Hyd yn oed yn gynharach, yn y pumed ganrif cyn Crist, roedd y bardd Groegaidd Simonides o Chios hefyd wedi sylwi ar y tebygrwydd rhwng y ddwy chwaer-dduwies; dywedodd 'poema pictura loquens, pictura poema silens', neu 'llun sy'n llefaru yw cerdd, a cherdd fud yw llun'. Efelychu'r byd real ('imitatio' Aristoteles) y gwna'r ddau fath o gelfyddyd yn y bôn, ond mae natur y ddau yn golygu bod eu hadlewyrchiad o'r real yn wahanol. Celfyddyd diacronig yw barddoniaeth - mae'n dod i fodolaeth gyda threigl amser, tra bod y llun yn wrthrych synchronig - mae'n bodoli yn ei gyflawnrwydd mewn gofod, ac nid yw'n ddibynnol ar dreigl amser. Wrth gwrs, mae'r gwahaniaethau hyn yn rhai gor-syml, ac eto maent yn awgrymu tipyn am yr hyn mae'r ddwy gelfyddyd yn medru cyflawni a'r hyn sy'n ddiffygiol ynddynt. Gellir dadlau y byddai dod â'r ddwy gelfyddyd at ei gilydd, fel y gwneir mewn cerdd ecffrastig, yn cyfuno cryfderau'r ddwy ac yn dod â'r gwaith celf yn agosach at 'y real'.

Ond mae agwedd arall i ystyried hefyd. Nid hap a damwain yw'r ffaith bod ecffrasis yn apelio yn arbennig at feirdd *benywaidd* heddiw, yn fy marn i. Mae hanes celf wedi adlewyrchu hanes llenyddol, yn yr ystyr bod y ferch wedi cael ei defnyddio fel gwrthrych a delwedd ar gyfer cannoedd ar filoedd o weithiau celf, ond bod hanesion y merched go iawn

wedi cael eu hanghofio neu'u hanwybyddu. Ystyrier y soned wych gan Christina Rossetti, 'In an artist's studio':

One face looks out from all his canvases,
 One selfsame figure sits or walks or leans:
 We found her hidden just behind those screens,
 That mirror gave back all her loveliness.
 A queen in opal or in ruby dres,
 A nameless girl in freshest summer greens,
 A saint, an angel; – every canvass means
 The same one meaning, neither more nor less.
 He feeds upon her face by day and night,
 And she with true kind eyes looks back on him
 Fair as the moon and joyful as the light:
 Not wan with waiting, not with sorrow dim;
 Not as she is, but was when hope shone bright;
 Not as she is but as she fills his dream.⁶

Mae'r gerdd yn sôn am Lizzie Siddal, y ferch hardd a oedd yn fodel ac yn ysbrydoliaeth i lawer o'r artistiaid Cyn-Raffaëlaidd, yn cynnwys Dante Gabriel Rossetti, brawd Christina, a briododd Lizzie yn 1860 ar ôl carwriaeth hir. Sgrifennodd Christina Rossetti y gerdd yn 1856; chwe blynedd yn ddiweddarach roedd Lizzie Siddal wedi marw, ar ôl cymryd gorddos o lodnwm. Heddiw, hyd yn oed os nad ydym yn gyfarwydd ag enw Lizzie Siddal, byddai llawer ohonom yn adnabod ei hwyneb prydferth, ei llygaid gwyrdd, a'i gwallt lliw copr, gan fod delweddau ohoni mor gyffredin ym mhaentiadau adnabyddus, megis 'Ophelia' gan Millais a 'Beata Beatrix' gan Dante Gabriel Rossetti ei hun. Yn wir, amcangyfrifir bod Rossetti wedi gwneud *miloedd* o ddarluniau a phaentiadau ohoni, fel y mae cerdd ei chwaer yn ei awgrymu. Ond, fel mae'r soned yn dweud, nid yw delweddau delfrydol yr artist yn adrodd stori wir y ferch yn y lluniau; mae harddwch y lluniau yn parhau, ond roedd Lizzie ei hun yn nychu'n araf, yn colli pwysau, yn mynd yn gaeth i gyffuriau, ac yn anobeithio gan fod ei chariad, Rossetti, yn gyndyn iawn i'w phriodi oherwydd ei bod hi'n hanu o'r dosbarth gweithiol. Gwneuthurwraig hetiau oedd hi cyn cyfarfod â brodyr y Cyn-Raffaëliaid, ond ar ôl

⁶ Christina Rossetti, 'In an Artist's Studio', *The Complete Poems* ed. R. W. Crump a Betty Flowers (London: Penguin, 2001) [Cyfansoddwyd 1856] t. 796.

iddi ddod yn fodel poblogaidd, datblygodd hi hefyd fel bardd ac arlunydd ar ei liwt ei hun. Ac eto, gwnaeth ddiwedd arni hi ei hun pan oedd hi ond yn 32 oed. Er nad oedd sêl bendith teulu'r Rossettis ar y berthynas rhyngddi a Dante Gabriel, mae'n amlwg o'r soned hon bod Christina, o leiaf, yn cydymdeimlo â sefyllfa'r ferch ac yn ceisio mynegi peth o'r gwirionedd amdani, gwirionedd a oedd yn gwrthgyferbynnu â'r hyn a welodd llygaid yr arlunydd, ei chariad. Mae soned Christina fel petai'n cynnig golwg benywaidd ar y ferch go iawn, tra bod y gwaith celf yn ei phortreadu o safbwynt y drem wrywaidd.

Rwyf yn dadlau bod rhai cerddi ecffrastig cyfoes gan ferched o Gymru yn gwneud gwaith adferol tebyg. Cymerwn fel enghraifft y gerdd 'y Ffrances a'r Gymraes' gan Christine James, sy'n ymddangos yn ei chyfrol *rhwng y llinellau* ar dudalen gyferbyn a'r paentiad enwog 'La Parisienne' gan Renoir.⁷ Cerdd feiddgar yw hon, sy'n cael ei llefaru yn llais 'Ffrances' y teitl, sef Henriette Henriot, yr actores ifanc a oedd yn fodel i'r artist Renoir ar gyfer y llun hwn a llawer iawn o luniau eraill. Fel Lizzie Siddal, roedd Henriette yn dod o gefndir cyffredin a doedd ganddi yn ei bywyd ddim llawer o rym na dylanwad, ond roedd ei harddwch wrth gwrs yn denu artistiaid fel Renoir ati, ac mi wnaethon nhw ei hanfarwoli yn eu gweithiau celf. Ond ei hanfarwoli'n fud. Mae llygaid Henriette yn pefrio allan o'r llun 'La Parisienne'; mae rhywbeth annwyl a diniwed yn perthyn iddi, ond hefyd rhywbeth dirgel ac annirnadwy. Mewn gwirionedd, mae dau lais benywaidd yn cyd-blethu yng ngherdd Christine James: llais Henriette, sy'n cwestiynu Gwendoline Davies, yr etifeddes Gymreig a brynodd y paentiad ohoni, a hefyd llais y bardd ei hun, sy'n cwestiynu beth fyddai Henriette wedi ei ddweud, a pha beth wnaeth sbarduno Gwen Davies i brynu'r paentiad arbennig hwn. Mae cerdd y Gymraes hon, Christine James, yn mynd cam ymhellach na'i rhagflaenwraig, Christina Rossetti: ydy, mae hi'n chwilio am wirioneddau sy'n celu tu ôl i'r ddelwedd ddelfrydol, ond mae hi hefyd fel petai'n dadebru'r ferch o'i thrwmgwsg, ac yn gwneud iddi

⁷ Christine James, 'y Ffrances a'r Gymraes', yn *rhwng y llinellau* (Aberystwyth: Barddas, 2013) tt. 18-19.

lefaru'n uniongyrchol. Clywir llais y bardd ei hun yn sleifio i mewn yn y pennill olaf, pan mae'n sylwi ar fanylyn bach yn y llun ac yn gofyn cwestiynau am hanes Cymru na fyddai Henriette'n medru amgyffred:

Neu a sylwaist ar yr esgid fach,
ei blaen yn mynnu brigo dan y godre glas
fel cnwbyn cudd o'r glo mân
fu'n fodd i gyfoethogi gwlad?⁸

Wyres David Davies, Llandinam, a wnaeth ffortiwn allan o gloddio ac allforio glo yng Nghymoedd y De, oedd Gwendoline Davies, ac mi wnaeth hi a'i chwaer, Margaret, gwario'r ffortiwn yna ar weithiau celf gan artistiaid Ffrengig y mudiad Argraffiadol, sydd yn awr wrth galon casgliad arbennig Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Erbyn heddiw mae'r 'Parisienne' yn cael ei adnabod bron fel symbol o Gaerdydd, neu hyd yn oed o Gymru, ac mae'n bosib i unrhyw un gerdded i mewn o strydoedd y brifddinas i syllu'n syth ar wyneb hardd Henriette a'i ffrog las gain. Pris y llun oedd pris glo, fel bod y llun hefyd yn cynrychioli nid yn unig Cymru heddiw ond Cymru ddoe ac echdoe. Gellir gweld, felly, sut y mae cerdd ecffrastig, pert yn codi cwestiynau perthnasol a chyfoes am bwy sy'n gwneud hanes, am bwy sy'n cyfri, a sut mae lleisiau merched yn diasbedain dros y canrifoedd, os rydym yn fodlon gwranddo arnynt.

Mewn cerdd arall yn yr un casgliad, mae Christine James yn troi'n dafleiswraig ar gyfer yr arlunydd ei hun, yn hytrach na'i fodel. Teitl y gerdd yw 'noethlun' ac mae'n cyfeirio at bortread ciwbaidd gan Picasso, sef 'Dawns y Gorchuddion', sy'n ymddangos ar y tudalen nesaf yn y gyfrol.⁹ Mae'r gerdd yn orlawn o ferfau gweithredol sy'n disgrifio'r hyn y mae'r arlunydd yn gwneud gyda'i fodel, berfau sy'n awgrymu grym yr artist, gan ei fod yn medru trin a symud corff y ferch fel y mynno: 'gosodais', 'penderfynu', 'cymryd', 'meistroli'. Mae ei lais yn oeraidd, i gyd-fynd a'r ddelwedd o'r ferch sy'n ongllog a phigog, fel casgliad o

⁸ Ibid., t. 18, llinellau 28-31.

⁹ Christine James, 'noethlun', *ibid.*, tt. 30-31.

siapau benywaidd, yn hytrach na pherson. Yn yr ail bennill mae awgrym ei bod yn cymryd mantais ohoni yn rhywiol, yn ogystal â'i defnyddio hi fel gwrthrych i'w beintio:

Pwysai yn ôl ac ymlaen ar fy nghais,
pob ystum i'm boddhau,
a minnau'n penderfynu,
ar chwiw yn y diwedd,
ei chymryd y tro hwn ar ei hochr,
ei choesau ymhlyg
a'i braich y tu ôl i'w phen
i brofi llawnder ei bronau.¹⁰

Dim ond yn y pennill olaf clywn oslef wahanol yn ei lais – goslef o ansicrwydd, ac ofn hyd yn oed:

Ni fentrais edrych unwaith
dan orchudd ei phroffesiwn,
heibio i'r mwgwd dychryn,
rhag ei throi yn fenyw fyw.¹¹

Â Christine James gam ymhellach yn ei hatgyfodiad o'r ferch anhysbys yn y gwaith celf yn y gerdd hon, gan fod ei llais tafledig yn herio grym y drem wrywaidd ei hun. Mae'r noethlun hwn yn debyg iawn i'r ffigurau benywaidd yng nghynfas enwog Picasso, 'Les demoiselles d'Avignon', llun o bedair putain sy'n edrych allan o'r llun yn heriol, eu cyrff yn gam a'u hwynebaw fel mygydau defodol. Dehongla'r beirniad Robert Hughes y llun fel mynegiant o bryder rhywiol: mae'r merched yn y llun yn chwythu bygythion at yr artist ei hun, heb yngan gair.¹² Mae'r ferch yn 'dawns y Gorchuddion' yn debyg: coda ofn ar y gwylwr, ac ar ôl darllen cerdd Christine, mae'n hawdd gweld sut y mae ofnau'r arlunydd, sy'n dod i'r brig ar ddiwedd y gerdd, yn cael eu mynegi'n gyfrin ymhob llinell o'r paentiad. Megis yn y cerddi ecffrastig mwyaf llwyddiannus, mae 'noethlun' a llun Picasso yn creu deialog pryfoclyd, un sy'n gwneud i ni ofyn cwestiynau am y berthynas rhwng yr artist a'i waith, rhwng celf a'r byd real.

¹⁰ Ibid., t. 30, ll. 4-11.

¹¹ Ibid., ll. 21-24.

¹² Robert Hughes, *The Shock of the New: Art and the Century of Change* (London: Thames & Hudson, 1991).

Wrth reswm, nid Christine James yw'r bardd benywaidd cyntaf i sgrifennu barddoniaeth ecffrastig, na chwaith y cyntaf i'w hysbrydoli gan arlunwyr Argraffiadaidd Ffrainc. Yn ei chyfrol *Dawns y Sêr*, a ymddangosodd yn 1999, mae Nesta Wyn Jones yn cynnwys amryw o gerddi ecffrastig, yn eu mysg cerdd o'r enw 'Hen Baentiad', ac mewn cromfachau o dan y teitl '*Snow at Louveciennes*, neu ran ohono, gan Alfred Sisley 1839-1899'.¹³ Yn annhebyg i *rhwng y llinellau*, nid yw cyfrol Nesta Wyn Jones yn cynnig atgynhyrchiad o'r llun, ond yn hytrach mae'n dibynnu ar rym y gerdd i gonsurio'r llun yn nychymyg neu gof y darlennydd. Mae'r llun adnabyddus yn dangos ffigur ddu, fenywaidd yn diflannu yn y pellter, rhwng muriau a choed sy'n eira i gyd. Mae'r muriau bob ochr i'r lôn y cerdda'r fenyw ar ei hyd yn creu siâp trionglog yn arwain at yr hyn mae haneswyr celf yn ei alw'r 'diflanbwynt' – mae'r fenyw ar fin mynd i mewn i'r diflanbwynt. Yn y pellter, ceir awgrym o adeilad eglwysig. Yn y gerdd 'Hen Baentiad', y manylyn sy'n hawlio sylw llais y gerdd yw'r ferch yn y pellter. Dechreua'r gerdd yn ddramatig gyda'r gosodiad 'Hi ydy hi.'¹⁴ Ail-adroddir y gosodiad tair llinell yn ddiweddarach ac yna, fel ebychiad, 'Ie, hi ydy hi!' yn llinell naw. Mae'r adroddwr fel petai yn adnabod gwisg, osgo, a hyd yn oed basged y ferch yn y llun; mae'r argyhoeddiad mor gryf fel ei bod hi'n gweiddi arni ac yna yn rhedeg 'drwy drwch yr eira' tuag ati. Ond nid yw'r ferch yn y llun, wrth gwrs, yn ymateb; mae'n dal i gerdded, heb symud, am byth. Erbyn diwedd y gerdd, mae'r siaradwraig yn dechrau amau – 'Ai cysgod yw hi?', ac yna'n cydnabod taw 'cysgod cant oed' yw hi, dim ond 'blotyn o ddu' o frws rhyw artist y gorffennol.¹⁵ Mae'r gerdd yn fynegiant bywiog o'r wefr o adnabod ac atgofio sy'n gallu digwydd ambell waith wrth i chi sefyll o flaen llun mewn oriel. Er taw dim ond 'blotyn o ddu' yw siâp y fenyw yn y llun, mae rhywbeth amdani sy'n argyhoeddi'r gwyliwr ei bod yn ei hadnabod. Ac i farnu o angerdd a chynnwrf y llais, mae'r ferch hon yn

¹³ Nesta Wyn Jones, 'Hen Baentiad', *Dawns y Sêr* (Llandysul: Gomer, 1999) tt. 54-55.

¹⁴ *Ibid.*, t. 54, ll. 1.

¹⁵ *Ibid.*, ll. 11, ll. 23-24.

rhywun pwysig, rhywun colledig – mam, neu fam-gu, efallai, neu berthynas addfwyn sydd erbyn hyn wedi marw. Erbyn diwedd y gerdd, mae'r llais yn deall ei chamgymeriad, ac eto yn cydnabod pŵer y llun – a medrusrwydd 'rhyw artist a fu', sy'n gallu consurio'r gorffennol i fodolaeth gydag un cyffyrddiad o'i frwsh. Dyna'r ddeialog bositif rhwng y gweithiau celf yma, ond mae 'na hefyd rhyw is-lais o hiraeth a cholled: tybed a yw ffigur y ferch yn gyfarwydd oherwydd bod pob merch yn y gorffennol fel hyn, yn diflannu i'r tywyllwch, manylion ei gwedd a'i hosgo yn toddi i'r cysgodion?

Enghraifft arall o gerdd gyfoes ecffrastig yw 'Girl in Kitchen' gan Mererid Hopwood, sy'n cyfeirio at lun o'r un teitl gan yr arlunydd Cymreig, Evan Walters (1893-1951).¹⁶ Yn annhebyg i gerdd Christine James, nid yw'r llun yn ymddangos yn y casgliad ond, fel yn achos llun Sisley sydd wrth wraidd 'Hen Baentiad' Nesta Wyn Jones, mae'n bosib gweld y llun ar y we. Paentiwyd y llun ym 1938, ac mae'n adlewyrchu triniaeth wahanol iawn o'r ffigur benywaidd i'r hyn a welwn yn 'Y Parisienne' neu 'Hen Baentiad'. Disgrifia'r gerdd y 'ferch' yn y llun:

Gweld, o ran, drwy gil y drws
 a wnaflinnau, gweld fenws
 y gegin gefn yn trefnu
 rhyw ran fain o'r hyn a fu'n
 dawel falch. Mae'n dal i fod
 yno, hi, fel menywod
 pob cegin [...]
 [...]mi welais
 y llun a chlywed y llais,
 nes dal ana'l yr ennyd
 am oes, dal yr ateb mud
 a hawliodd fy holl holi:
 nid paham, ond pwy yw hi.¹⁷

Cywydd celfydd a chynnil iawn yw hwn sy'n dangos dawn y bardd wrth drin y gynghanedd.

Ar yr un pryd, mae'n cynnig cipolwg – fel y llun – ar safle'r ferch. Mae'r fenyw yn y llun

¹⁶ Mererid Hopwood, 'Girl in Kitchen', yn *Nes Draw* (Llandysul: Gomer, 2015) t. 63.

¹⁷ Mererid Hopwood, *ibid.*, ll. 1-18.

(nid 'girl' mohoni!) yn gwisgo brat hen-ffasiwn ac yn paratoi bwyd wrth ford y gegin; mae ei llygaid yn edrych lawr ar ei gwaith ac nid yw hi'n ymwybodol o'r ffaith bod rhywun – yr artist a ni, sy'n syllu ar waith yr artist – yn pipo arni drwy gil y drws. Awgryma cerdd Hopwood bod gweld y llun yn atgoffa'r ferch sy'n siarad o rywbeth mae'n cofio o'i phlentyndod – profiad, efallai, o bipo fel hyn drwy gil y drws ar fam neu fam-gu yn paratoi bwyd yn y gegin. Ar yr un pryd, mae'r cof unigol hwn, sydd mor fyw nes gwneud iddi 'dal ana'l am ennyd', hefyd yn gof cyffredin neu gymdeithasol, cof sydd gennym i gyd o fenywod yn y gegin yn gwneud eu gwaith domestig. Felly, mae'r gerdd hon hefyd, fel cerddi Christine James a Nesta Wyn Jones, yn cynnig llun a llais preifat, agosatoch, a hefyd persbectif amgen o safle'r ferch ar hyd y blynyddoedd. Fel darllenwyr y gerdd, rydym yn syllu gyda'r ferch sy'n siarad ar y ferch yn y llun, ac mae rhyw *mis-en-abyme* rhyfedd yn digwydd – fel yr awgryma'r gerdd, mae rhod amser yn pallu am ennyd, ac rydym wedi ein cludo dros ffrâm y paentiad i ofod rhyfedd le rydym yn edrych megis mewn drych ar ein hunain, ein mamau, ein mam-guod, a'n hen fam-guod. Yn llinell gynderfynol y gerdd, awgrymir agwedd merch fach a'i 'holl holi', ond erbyn y llinell olaf, mae'r ferch fach eto yn oedolyn ac yn sylweddoli taw swyddogaeth y bardd benywaidd yw gofyn unwaith eto, ac am byth, 'pwy yw hi?', hynny yw, pwy yw'r ferch? Mae'r gerdd felly yn adleisio geiriau enwog Simone de Beauvoir ar ddechrau *Le deuxième sexe*, sy'n gofyn 'Qu'est-ce qu'une femme?'¹⁸ Fel y ffeminydd arloesol, Beauvoir, mae'r bardd benywaidd o Gymru heddiw yn deall bod ateb y cwestiwn hwnnw yn dod â ni yn nes at ddeall y drefn sydd ohoni.

Teimlaf yr un cyffro heddiw ag y teimlais pan ddychwelais i Gymru ar ddiwedd yr wythdegau gan fod ysgrifennu gan ferched yn ffynnu cymaint. Dim ond un agwedd o waith tri bardd cyfoes rwyf wedi crybwyll yma, ac mae ystod eang o bynciau eraill a llawer iawn o feirdd eraill sy'n haeddu trafodaeth feirniadol fanwl. Un peth sy'n fy nharo yn arwyddocaol

¹⁸ 'Beth yw merch?', Simone de Beauvoir, *Le deuxième sexe* (Paris: Gallimard, 1949).

heddiw yw bod beirdd benywaidd yn perthyn yn fwy i'r brif ffrwd nag oedd merched arloesol yr wythdegau a'r nawdegau cynnar. Ac mae'r statws newydd hyn yn eu galluogi i gloddio i'r gorffennol, i archwilio ein delweddau ni o'r ferch, ac i ofyn cwestiynau lletchwith am statws y ferch yn gyffredinol, gan nad yw pob merch yn mwynhau'r un hawliau, oherwydd nad ydym yn byw mewn byd o gydraddoldeb. Mae Eavan Boland wedi sôn am hyn yng nghydestun ei gwaith hithau fel bardd Gwyddelig cyfoes:

Every poet carries within them a silent constituency, made of suffering and failed expression. [...] It is difficult, if not impossible, to explain to men who are poets – writing as they are with centuries of expression behind them – how emblematic are the unexpressed lives of other women to the woman poet, how intimately they are her own.¹⁹

Mae'r ferch yn y gegin yng ngherdd Mererid Hopwood, y ferch yn cario basged yng ngherdd Nesta Wyn Jones, a merched y stryd a modelai i'r arlunwyr mawr yng ngherddi Christine James i gyd yn enghreifftiau o'r 'bywydau nas mynegwyd' y sonnir amdanynt. Erbyn hyn nid yw merched sy'n barddoni yn sefyll tu allan i ddrws y plasty ond yn cymryd arnynt roliau awdurdodol a chynrychiadol. Credaf fod y cerddi ecffrastig sydd wedi eu trafod yn yr ysgrif hon yn dangos bod y beirdd yn dal i archwilio'r hen berthynas yna rhwng 'pictura' a 'poesis', ac ar yr un pryd yn gofyn cwestiynau dwys a chyfoes am rôl yr artist mewn cymdeithas a sut mae gweledigaeth yr artist yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn gweld ein byd.

Llyfryddiaeth

Beauvoir, Simone de, *Le deuxième sexe* (Paris: Gallimard, 1949)

Boland, Eavan, *Object Lessons: The Life of the Woman and the Poet in Our Time*,

(Manchester: Carcanet, 1995)

Elfyn, Menna, gol., *Hel Dail Gwyrdd* (Llandysul: Gomer, 1985)

¹⁹ Eavan Boland, *Object Lessons: The Life of the Woman and the Poet in Our Time* (Manchester: Carcanet, 1995).

- Elfyn, Menna, gol. *O'r Iawn Ryw* (Dinas Powys: Honno, 1992)
- Gilbert, Sandra a Susan Gubar, *The Madwoman in the Attic: The Woman Writer and the Nineteenth-Century Literary Imagination* (New Haven: Yale University Press, 1979)
- Gramich, Katie, 'Bards without beards', *Women's Voice in Literature and Society*, Bradford Occasional Papers, cyfrol 11, (1992) tt. 31-40
- Hopwood, Mererid, *Nes Draw* (Llandysul: Gomer, 2015)
- Hughes, Robert, *The Shock of the New: Art and the Century of Change* (London: Thames & Hudson, 1991)
- James, Christine, *rhwng y llinellau* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2013)
- Jones, Nesta Wyn, *Dawns y Sêr* (Llandysul: Gomer, 1999)
- Llwyd, Alan a Gwynn ap Gwilym, gol., *Blodeugerdd Barddas o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Llandysul: Gomer, 1987)
- Owen, Karen, *Siarad trwy'i het* (Aberystwyth: Cyhoeddiadau Barddas, 2011)
- Parry, Thomas, gol., *The Oxford Book of Welsh Verse/Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg* (Rhydychen: OUP, 1962)
- Rossetti, Christina, *The Complete Poems* gol. R. W. Crump a Betty Flowers (London: Penguin, 2001)
- Y Traethodydd*, Cyfrol CLXI (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfaidd, 1986)